# Ymgynghoriad ar y Polisi Amodau Trosglwyddo

Crynodeb o benderfyniadau a gymerwyd yn dilyn yr ymgynghoriad

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ..... 3

**2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** ..... 4

Sylwadau cyffredinol ..... 4

Sylwadau thematig ..... 5

Y gwahaniaeth rhwng Amod Trosglwyddo a Chyfarwyddyd ..... 5

Yr amgylchiadau lle mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn debygol o ddod yn ddarostyngedig i amod trosglwyddo ..... 5

Effaith andwyol sylweddol ..... 5

Yr amgylchiadau lle rydym yn debygol o Gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster ..... 6

Tynnu cydnabyddiaeth yn ôl ..... 6

Gosod Amod Trosglwyddo ar adeg cydnabod corff dyfarnu ..... 7

Amseriadau yn y broses o drosglwyddo cymhwyster ..... 7

Taliadau ..... 8

Eiddo a hawliau ..... 9

Hyd Amod Trosglwyddo ..... 9

Effaith Amod Trosglwyddo ar y gallu i ddyfarnu cymwysterau y tu allan i Gymru ..... 9

Nodi corff dyfarnu sy'n derbyn ..... 10

**3. Y camau nesaf** ..... 11

## 1. Cyflwyniad

Mae “Amod Trosglwyddo” yn Amod Arbennig y gall cydnabyddiaeth corff dyfarnu fod yn ddarostyngedig iddo, fel y nodir yn Atodlen 3, Adran 12 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (“y Ddeddf”).

Mae Adran 47 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru lunio datganiad polisi sy'n cynnwys gwybodaeth am amgylchiadau lle mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn debygol o ddod yn ddarostyngedig i Amod Trosglwyddo, a'r amgylchiadau lle mae Cyfarwyddyd yn debygol o gael ei roi yn unol â'r Amod hwnnw.

Yn 2018, gwnaethom ddechrau ar y gwaith o lunio polisi yn unol â'r Ddeddf ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Rhwng mis Awst 2018 a mis Tachwedd 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar Bolisi Amodau Trosglwyddo drafft. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gawsom o'r ymgynghoriad a'n hymateb iddynt. Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r polisi yn dilyn yr ymgynghoriad a chaiff y polisi ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r adroddiad hwn.

Mae defnyddio Amod Trosglwyddo yn un cam gweithredu ymhlith cyfres o bwerau sydd ar gael i ni a'n bwriad fyddai defnyddio pwerau o'r fath yn unol â phum egwyddor rheoleiddio da yn ogystal â'n Fframwaith a Dull Rheoleiddio.

Mae ein holl bolisïau rheoleiddio yn seiliedig ar bum egwyddor rheoleiddio da (2003), sef:

- Cymesuredd;
- Atebolrwydd;
- Cysondeb;
- Tryloywder; a
- Targedu.

Mae ein **Fframwaith a Dull Rheoleiddio** yn nodi'r ffyrdd rydym yn rheoleiddio. Rydym yn gweithredu ar sail risg ac yn cyflawni ein prif nodau, sef cynnal hyder y cyhoedd yn y system cymwysterau yng Nghymru a diogelu buddiannau rhesymol dysgwyr.

Drwy geisio adborth ar ein polisi drafft drwy'r ymgynghoriad hwn, ein nod oedd sicrhau y byddai ein polisi yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn, a thrwy hynny wella ansawdd ein gwaith rheoleiddio a gorfodi.

## 2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, cawsom 11 o ymatebion. Ymatebodd 10 allan o 11 fel cynrychiolwyr sefydliadau ac ymatebodd un fel unigolyn. Cafwyd un ymateb gan Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB), sef cymdeithas fasnach sefydliadau dyfarnu galwedigaethol a thechnegol, a oedd yn ymateb ar ran ei aelodau.

Yn yr adroddiad canlynol, mae cyfeiriadau at 'rai' ymatebion yn cyfeirio at 5 neu lai, tra bod cyfeiriadau at 'y rhan fwyaf o' ymatebion yn cyfeirio at 6 neu fwy.

Cyn dechrau ar yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnal tri grŵp ffocws yn ystod 2018 gan godi ymwybyddiaeth cyrff dyfarnu o'r Polisi Amodau Trosglwyddo a chyflwyno gwybodaeth am y polisi i amrywiaeth eang o gyrff dyfarnu yng nghynhadledd flynyddol Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu, a lywiodd ein dull gweithredu. Parodd ein hymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos rhwng 3 Medi a 26 Tachwedd 2018.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom godi ymwybyddiaeth o'n hymgynghoriad ar ein gwefan, a thrwy sawl sianel gan gynnwys y Llechen, Yr Arholwr a thrwy gylchlythyrau rhanddeiliaid allanol. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom hefyd wahodd cyrff dyfarnu i drafod unrhyw gwestiynau â ni a chreu adran Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan er mwyn hwyluso dealltwriaeth o'r pŵer hwn a chynnwys drafft y polisi. Gwnaethom hefyd roi cyflwyniad yng nghynhadledd flynyddol Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu ac ymgysylltu â nifer o gyrff dyfarnu mewn dau ddigwyddiad seminar yno.

Rydym wedi ystyried a dadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac wedi rhoi esboniadau yn yr adroddiad hwn ar gyfer pob un o'r themâu a godwyd. Rydym wedi pwyso a mesur egwyddorion rheoleiddio da a'r effeithiau y gallai trosglwyddo cymhwyster eu cael ar gyrff dyfarnu. Yn gyson â'n prif nodau, byddwn bob amser yn ceisio diogelu buddiannau dysgwyr ac hybu hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru.

### Sylwadau cyffredinol

Yn gyffredinol, cydnabu'r ymatebwyr fod Amod Trosglwyddo yn rhan o'n fframwaith rheoleiddio a gorfodi ac roeddent yn deall y byddai'n cael ei ddefnyddio o dan amgylchiadau penodol iawn i ddiogelu dysgwyr.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor hon ac, felly, yn cytuno bod angen polisi i nodi'n glir yr amgylchiadau lle y câi pŵer o'r fath ei ddefnyddio a'r broses a gâi ei dilyn. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n fuddiol gwneud ychydig o ddiwygiadau i'r polisi drafft a'r ddau faes cyffredinol oedd: egluro ymhellach pa amgylchiadau a all arwain at drosglwyddo cymhwyster; a manylion pellach ar y broses a gâi ei defnyddio i drosglwyddo cymhwyster.

## Sylwadau thematig

Yn yr adrannau canlynol, rydym yn crynhoi'r ymatebion yn ôl thema. Lle mae chwech neu fwy o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau tebyg, rydym yn cyfeirio at 'y rhan fwyaf', a lle mae pump neu lai wedi gwneud sylwadau tebyg, rydym yn cyfeirio at 'rhai'.

## Y gwahaniaeth rhwng Amod Trosglwyddo a Chyfarwyddyd

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y polisi yn esbonio beth yw Amod Trosglwyddo yn glir. Fodd bynnag, mewn rhai o'r manylion mewn rhai o'r ymatebion, roedd peth dryswch ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng gosod Amod Trosglwyddo a'r Cyfarwyddyd dilynol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai proses un cam yn gliriach.

Mae'r Ddeddf yn rhagnodi proses dau gam. Bwriedir i hyn ddarparu ar gyfer rheoli risgiau o effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr fesul cam. Mae gosod Amod Trosglwyddo yn dynodi bod y risg o ddigwyddiad wedi'i nodi, tra bod y Cyfarwyddyd yn dynodi bod y digwyddiad wedi digwydd. Ar yr ail gam hwn, câi'r corff dyfarnu ei gyfarwyddo i drosglwyddo cymhwyster. Os na fydd y digwyddiad yn digwydd, yna ni ellir rhoi'r Cyfarwyddyd. Mae'r broses a amlinellir yn y Ddeddf yn sicrhau bod ein rhesymeg dros gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster yn cael ei nodi'n glir ar gam cynnar ac y gall weithio i osgoi'r angen i gymryd cam o'r fath.

Er mwyn nodi'r gwahaniaeth hwn yn gliriach, rydym wedi ailstrwythuro ein polisi i ddangos dwy set wahanol o amgylchiadau, un lle y byddem yn debygol o osod Amod Trosglwyddo ac un lle y byddem yn debygol o roi Cyfarwyddyd. Bwriedir i hyn ddangos bod dau gam gwahanol.

## Yr amgylchiadau lle mae cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn debygol o ddod yn ddarostyngedig i amod trosglwyddo

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y polisi yn glir ynglŷn â'r amgylchiadau lle y gallai Amod Trosglwyddo gael ei ddefnyddio. Cydnabu'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai dim ond o dan amgylchiadau penodol iawn y câi'r pŵer rheoleiddio hwn ei ddefnyddio.

## Effaith andwyol sylweddol

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurhad o ystyr 'effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr', am y byddai hyn yn diffinio'r amgylchiadau hynny i raddau helaeth. O fewn y polisi diwygiedig rydym wedi egluro bod y mathau o effeithiau andwyol sylweddol y byddem yn eu hystyried mewn perthynas ag Amod Trosglwyddo yn debygol o gynnwys sefyllfaoedd lle na all cyrff dyfarnu ddyfarnu cymwysterau perthnasol er bod dysgwyr wedi cwblhau gwaith neu asesiadau perthnasol.

Mae ein prif nodau yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac ennyn hyder y cyhoedd yn y system cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn ystyried bod sefyllfaoedd lle mae'n bosibl na ddyfernir cymhwyster perthnasol yn rhai sy'n peri risg o effaith andwyol sylweddol ac, felly, ystyrid bod defnyddio Amod Trosglwyddo yn briodol ac yn gymesur.

## Yr amgylchiadau lle rydym yn debygol o Gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylem roi mwy o sylw i brosesau rheoli risg cyrff dyfarnu, fel sy'n ofynnol gan yr Amodau Cydnabod Safonol, wrth ystyried yr amgylchiadau sy'n arwain at roi Cyfarwyddyd i drosglwyddo cymhwyster.

Rydym wedi cyfeirio'n benodol at gyrff dyfarnu yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgwyr yn yr adran o'r polisi sy'n ymdrin â'r Egwyddorion Cyffredinol ac yn y ddogfen ac rydym wedi cyfeirio sawl gwaith at y ffaith ein bod yn disgwyl i gyrff dyfarnu gymryd camau i nodi, rheoli a lliniaru unrhyw risg o effeithiau andwyol. Er enghraifft, rydym wedi cynnwys cynlluniau gweithredu, cynlluniau wrth gefn a gwneud ymgymeriadau yn yr adran o'r polisi sydd â'r teitl *'Amgylchiadau lle rydym yn debygol o Gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo cymhwyster'*. Gwnaed hyn er mwyn nodi'n glir y byddem yn disgwyl i gyrff dyfarnu ddilyn cynlluniau o'r fath, ac os byddant yn gwneud hynny'n ddigonol, ac na cheir unrhyw effaith andwyol sylweddol, nad ydym yn rhagweld y byddai angen eu Cyfarwyddo i drosglwyddo cymhwyster.

At hynny, fel y nodwyd gennym yn ein polisi, byddem bob amser yn ystyried a oes darpariaeth amgen addas i ddysgwyr ar gael. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am yr amgylchiadau lle mae cymwysterau yn cael eu perchenogi ar y cyd, lle mae'r eiddo deallusol hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn cymwysterau eraill sy'n eiddo i'r corff dyfarnu e.e. fel unedau mewn cymwysterau eraill neu lle mae cymwysterau yn cael eu cynnig o dan drefniadau cytundebol. Rydym wedi nodi'n glir yn ein polisi y byddem yn rhoi sylw i faterion o'r fath ar gyfer y cymhwyster sy'n cael ei ystyried.

## Tynnu cydnabyddiaeth yn ôl

Nododd nifer fach o ymatebwyr fod defnyddio Amod Trosglwyddo yn werthfawr mewn sefyllfa lle mae'n debygol y caiff cydnabyddiaeth corff dyfarnu ei thynnu'n ôl.

> *Yn ein barn ni, byddai'r Amod Trosglwyddo hwn yn cael ei ddefnyddio pan fo cydnabyddiaeth sefydliad dyfarnu yn cael ei thynnu'n ôl gan y Rheoleiddiwr. Hwn fyddai'r cam olaf ar ôl i'r Rheoleiddiwr gymryd pob cam arall i liniaru'r effaith andwyol ar ddysgwyr.*

Rydym yn cydnabod hyn fel enghraifft lle y gellid defnyddio Amod Trosglwyddo i ddiogelu dysgwyr. O dan amgylchiadau o'r fath, byddem yn gofyn i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn perthynas â'r

cymhwyster hwnnw, gan gynnwys rhoi cynllun ar waith i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl. Rydym wedi cyfeirio at gynlluniau o'r fath yn y polisi.

Rydym yn esbonio, pe na bai cynllun tynnu'n ôl yn diogelu buddiannau dysgwyr yn ddigonol, neu pe bai gweithredoedd y corff dyfarnu yn cael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr, y byddem yn ystyried defnyddio Amod Trosglwyddo.

Er bod yr uchod yn enghraifft, ni fyddem yn cyfyngu ein defnydd o Amod Trosglwyddo i'r amgylchiad penodol hwn. Yn unol â'n Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith, rydym o'r farn mai tynnu cydnabyddiaeth yn ôl yw'r cam gorfodi mwyaf sylweddol y gallem ei gymryd yn erbyn corff dyfarnu a'r un a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Rhagwelwn fod yr amgylchiadau lle y câi Amod Trosglwyddo ei ddefnyddio yn cynnwys y rhai lle rydym am reoli digwyddiadau sy'n cael effaith andwyol sylweddol a cheisio osgoi sefyllfa lle y bydd achosion o ddiffyg cydymffurfio yn gwaethygu i'r fath raddau lle y gallai fod yn fwy tebygol y caiff cydnabyddiaeth ei thynnu'n ôl.

## Gosod Amod Trosglwyddo ar adeg cydnabod corff dyfarnu

Holodd rhai ymatebwyr ynghylch yr egwyddor o osod Amod Trosglwyddo ar adeg cydnabod corff dyfarnu gan nodi, petaem yn ymwybodol o'r risgiau, y byddai'n well peidio â chydnabod y corff dyfarnu dan sylw.

> *Ymddengys yn rhyfedd y byddai Cymwysterau Cymru yn ystyried cydnabod sefydliad dyfarnu pe bai Cymwysterau Cymru eisoes yn credu, ar adeg cydnabod y sefydliad hwnnw, fod tystiolaeth bod digwyddiad yn debygol o ddigwydd a allai gael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr.*

Dywed Atodlen 3 o'r Ddeddf y gallwn osod Amod Trosglwyddo ar adeg cydnabod corff dyfarnu neu ar ôl hynny.

## Amseriadau yn y broses o drosglwyddo cymhwyster

Roedd yr amseriadau cyffredinol a ganiateir ar gyfer derbyn sylwadau gan gyrff dyfarnu mewn ymateb i'n bwriad i osod Amod Trosglwyddo yn cael eu cefnogi gan y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu a nododd eu bod yn rhesymol. Fodd bynnag, lle y nodwyd gennym, o dan amgylchiadau penodol, y gallai'r cyfnod hwn gael ei leihau i 72 awr, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod hyn yn afresymol.

> *...nid yw cyfnod o 72 awr yn rhesymol i gorff dyfarnu allu paratoi sylwadau cadarn, yn enwedig os oes angen iddo ddefnyddio gwasanaethau cyfreithiol. I bob diben byddai'r amserlen hon yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu roi popeth arall o'r neilltu a chanolbwyntio ar fater trosglwyddo'r cymhwyster.*

Hoffem egluro mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y câi'r amser a ganiateir i gyflwyno sylwadau ei leihau, megis pan fyddwn yn nodi bod risg uniongyrchol o effaith andwyol sylweddol sylweddol ar ddysgwyr a phan fyddai angen gweithredu yn unol â'r amserlen hon er mwyn osgoi'r fath effeithiau ar ddysgwyr. Wrth ystyried y pwyntiau a godwyd, rydym wedi egluro ymhellach yn y polisi, pe bai angen gweithredu o fewn amserlen gywasgedig oherwydd amgylchiadau eithriadol, y byddem yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am ein rhesymeg dros wneud hynny yn yr Hysbysiad o Fwriad.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynglŷn â faint o oriau a fyddai'n gyfystyr â diwrnod gwaith, gydag un yn gofyn a oedd hyn yn cynnwys diwrnodau nad oeddent yn ddiwrnodau gwaith. Mewn ymateb, rydym wedi diwygio ein polisi er mwyn cyfeirio'n benodol at ddiwrnodau gwaith, yn hytrach nag oriau.

At hynny, nododd rhai ymatebwyr fod y cyfnod o 48 awr ar gyfer cyflwyno sylwadau ar ôl i Hysbysiad o Fwriad i Gyfarwyddo corff dyfarnu gael ei gyflwyno, yn afresymol, am resymau tebyg.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond ar ôl i ddigwyddiad penodol ddigwydd y câi'r penderfyniad i Gyfarwyddo corff dyfarnu ei wneud, y byddai'r corff dyfarnu wedi cael ei hysbysu amdano drwy'r Amod Trosglwyddo ei hun. Yn yr un modd, byddai cyrff dyfarnu wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar yr Amod Trosglwyddo. Yn bwysig ddigon, byddai Cyfarwyddyd yn cael ei roi i gorff dyfarnu drosglwyddo cymhwyster ar adeg pan gredwn fod angen gwneud hynny er mwyn atal effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr ac, felly, byddem am weithredu cyn gynted ag a oedd yn rhesymol bosibl er mwyn diogelu eu buddiannau.

Serch hynny, rydym wedi ystyried y cyfnod o 48 awr yn ofalus ac yn sgil sylwadau a wnaed rydym wedi newid y cyfnod hwn i 3 diwrnod gwaith.

## Taliadau

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r materion gynnwys cyfeiriad at gostau ariannol datblygu cymwysterau.

Mae i daliadau ystyr benodol yng nghyd-destun y pŵer hwn ac mae ein polisi yn adlewyrchu hyn. Felly, gellir gwneud taliadau i gyrff dyfarnu mewn sefyllfaoedd lle maent wedi cael colled wrth gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn.

Rhagwelwn y câi taliad ei wneud er mwyn lleihau neu liniaru effaith negyddol ar allu corff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau eraill i ddysgwyr yng Nghymru sy'n codi o ganlyniad i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd.

Rydym wedi ailddrafftio'r adran hon o'r polisi er mwyn nodi hyn yn gliriach.

## Eiddo a hawliau

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder pellach ynglŷn â chwmpas eiddo a hawliau y gellid eu trosglwyddo a sut y gellir eu trosglwyddo, gyda rhai yn nodi y gallai hyn fod yn ddadleuol a chael cryn effaith ar fusnes cyrff dyfarnu.

Mae'r polisi yn nodi y gellid deall eiddo a hawliau yn yr ystyr a ddefnyddir fel arfer mewn deddfwriaeth, ond y byddem yn ystyried pa eiddo a hawliau a oedd yn berthnasol at ddibenion trosglwyddo cymhwyster. Mae'n bwysig nodi, fel y nodir yn y polisi, y byddem yn ystyried beth y byddai'n briodol ac yn rhesymol ei drosglwyddo ym mhob achos unigol. Yn benodol, byddai'r eiddo a'r hawliau yn ymwneud â chyflwyno a dyfarnu'r cymhwyster sydd i'w drosglwyddo.

Byddem yn ymgysylltu â'r corff dyfarnu i drafod y materion hyn, gyda'r nod o ddiogelu dysgwyr wrth sicrhau bod ein cam rheoleiddio yn rhesymol ac yn gymesur. Byddem hefyd yn darparu rhestr ddangosol o eiddo a hawliau o'r fath yn y polisi er mwyn rhoi eglurder pellach i gyrff dyfarnu er na fyddai'r rhestr honno yn hollgynhwysfawr.

## Hyd Amod Trosglwyddo

Holodd rhai ymatebwyr ynghylch hyd Amod Trosglwyddo ac a fyddai eu cydnabyddiaeth yn ddarostyngedig i'r amod hwn am gyfnod amhenodol. Gwnaethant ofyn hefyd am eglurhad ynghylch p'un a ellid dychwelyd cymhwyster i gorff dyfarnu pe bai'r amgylchiadau a arweiniodd at drosglwyddo'r cymhwyster hwnnw yn newid.

Yn y polisi rydym wedi egluro y byddem yn adolygu Amod Trosglwyddo er mwyn ystyried p'un a oedd ei angen o hyd er mwyn rheoli'r risg o effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr ai peidio. Rydym wedi nodi, er eglurder, pan fyddai corff dyfarnu wedi cydymffurfio â Chyfarwyddyd a roddwyd yn unol ag Amod Trosglwyddo i'n boddhad llwyr, y byddem yn debygol o ddiwygio neu adolygu'r Amod hwnnw pan fyddai'n amserol ac yn briodol gwneud hynny.

Rydym hefyd wedi nodi yn y polisi y byddem yn ysgrifennu at y corff dyfarnu er mwyn cadarnhau bod yr Amod Trosglwyddo wedi'i gwblhau i'n boddhad ac nad yw cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn ddarostyngedig iddo mwyach. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw diddymu'r Amod Trosglwyddo yn golygu y caiff y cymhwyster ei drosglwyddo'n ôl i'r corff dyfarnu.

## Effaith Amod Trosglwyddo ar y gallu i ddyfarnu cymwysterau y tu allan i Gymru

Holodd rhai ymatebwyr ynghylch effaith penderfyniad i drosglwyddo cymhwyster ar allu corff dyfarnu i ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw mewn gwlad arall.

Ein safbwynt, fel y'i disgrifir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, yw y byddai unrhyw Amod Arbennig yn gymwys i gydnabyddiaeth y corff dyfarnu hwnnw i ddyfarnu cymwysterau i ddysgwyr sy'n cael eu hasesu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Byddem yn ystyried effaith ein cam rheoleiddio arfaethedig ar y gallu i ddarparu'r un cymhwyster a gynigir mewn rhannau eraill o'r DU.

Hoffem hefyd ailbwysleisio bod Amod Trosglwyddo yn gyfyngedig i gymwysterau a Gymeradwyir neu a Ddynodir yng Nghymru h.y. y rhai sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus.

Felly, ni ellid gosod Amod Trosglwyddo mewn perthynas â chymhwyster yr ystyrir ei fod yn 'Gymhwyster Arall a Reoleiddir'. I gael manylion pellach am statws rheoleiddiol cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru, gweler ein Fframwaith a Dull Reoleiddio ("Fframwaith").

## Nodi corff dyfarnu sy'n derbyn

Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o wybodaeth am sut y byddem yn nodi corff dyfarnu sy'n derbyn y gellid trosglwyddo'r cymhwyster iddo. Yn benodol: sut y byddem yn sicrhau bod ganddo'r adnoddau, y wybodaeth am y pwnc a'r sgiliau i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnodd rhai ymatebwyr sut y byddem yn rhannu gwybodaeth â nhw; sut y byddem yn diogelu eu buddiannau, a; sut y byddem yn osgoi rhoi mantais annheg wrth wneud hynny.

Fel y nodwyd gennym yn ein polisi, caiff ein dull o nodi cyrff dyfarnu priodol i drosglwyddo'r cymhwyster iddynt ei lywio gan ein gwybodaeth am y system gymwysterau.

Yn y polisi rydym hefyd wedi egluro y byddem yn ceisio nodi cyrff dyfarnu ag arbenigedd yn y sector perthnasol a hanes o gydymffurfio a rheoli risg yn dda. Pe na bai derbynnydd amgen addas, ni fyddai Amod Trosglwyddo yn gam rheoleiddio addas i'w gymryd.

## 3. Y camau nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol o'n Polisi Amodau Trosglwyddo.

Os oes gennych unrhyw adborth neu sylwadau pellach, cysylltwch â'r Tîm Polisi Rheoleiddiol yn polisi@cymwysteraucymru.org.